



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a
Buddosoddi Ewropeaidd**
**European Structural
and Investment Funds**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

EMFF Mesur I.15 - Erthygl 38 - Canllawiau Atodol ar Cyfnewid Cewyll

Mesur I.15: Erthygl 38 – Offer Detholus

Dylid darllen y canllawiau atodol hyn ar y cyd â Nodiadau Cyfarwyddyd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewropeaidd, 'Cymorth ar gyfer Buddsoddiadau ar Fwrdd Cychod Pysgota', paragraffau 37-42.

Ni fydd Cyfnewid Cewyll ar Raddfa Fawr yn cael ei gefnogi drwy'r mesur hwn o'r EMFF ond mae'n bosibl y caiff rhai buddsoddiadau graddfa fach eu hystyried, ar yr amod y gallant ddangos gwelliant clir i natur ddetholus offer a chyfarpar. Er eglurder – yn ystod cyfnod 2007-2013 y rhaglen, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gynllun penodol i gyflenwi cewyll i gymryd lle cewyll oedd wedi'u colli neu eu difrodi mewn stormydd garw. Nid ydym yn bwriadu cynnal cynllun tebyg o dan yr EMFF.

Mathau o weithgarwch a allai gael eu cefnogi:

Ni fydd cewyll cregyn moch yn cael eu cefnogi yn ystod yr adolygiad parhaus o reolaeth pysgodfeydd cregyn moch yng Nghymru.

Gallai cewyll cimychiaid a chrancod gael eu cefnogi; fodd bynnag, ni fyddem yn ceisio ariannu'r gwaith o gyfnewid cewyll ar raddfa fawr gan fod angen osgoi cynyddu capasiti pysgota. Bydd terfyn o 60 cawell ar gyfer pob trwydded bysgota fasnachol weithredol.

Byddai angen i unrhyw gewyll newydd fod yn fwy detholus na chewyll presennol a lleihau pysgota anfwriadol, er enghraifft, bod â phanel neu agoriadau dianc neu fod wedi'u gwneud o llyn biogddiraddadwy. O dan Reoliad EMFF, ni allwn gefnogi buddsoddiadau y gellid ystyried eu bod yn cynyddu'r ymdrech bysgota ac ni allwn gefnogi achosion o brynu offer 'tebyg am debyg'. Byddai angen dangos bod yr offer yn gwella detholiad meintiau neu'n cael llai o effaith ar yr ecosystem ac ar rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu na chewyll safonol. Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos hyn fel rhan o'u cais.

Os llwyddir i gael cymorth ar gyfer cewyll, ni fydd Llywodraeth Cymru'n gwneud taliad nes i dystiolaeth ddogfennol gael ei darparu bod yr hen gewyll wedi cael eu gwaredu'n briodol a bydd hyn yn cael ei wirio yn yr archwiliad hawliad terfynol.

I wybod mwy am yr EMFF, ewch i

<http://llyw.cymru/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/european-maritime-fisheries-fund/?lang=cy> neu cysylltwch â SMU@llyw.cymru / 0300 062 2218